# CYNGOR CYMUNED PISTYLL
# RHAGLEN CYFARFOD MISOL

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | **Nos Fawrth – 12fed o Dachwedd, 2024** |
| **AMSER** | **7 y.h.** |
| **LLEOLIAD** | **Y Ganolfan, Llithfaen** |
| **CADEIRYDD** | **Gethin Jones** |

| | |
|---|---|
| **1.** | **CROESO** |
| | Croesawodd y Caderydd Gethin Jones **(GJ)** bawb i'r cyfarfod. Diolchodd i OR am gymeryd ei sedd yng nghyfarfod Hydref.<br><br>**YN BRESENNOL:**<br><br>Gethin Jones **(GJ);** William Jones **(WJ);** Sianelen Pleming **(SP);** Derek Thomas **(DT);** Griffith John Leslie Jones **(GJLJ);** Lois Fychan **(LF)**; Emlyn Williams **(EW);** a'r clerc Gillian Thomas **(GT)** |
| **2.** | **YMDDIHEURIADAU** |
| | **DERBYNIWYD YMDDIHEURIADAU GAN**<br><br>Osian Hugh Williams **(OHW);** Olwen Roberts **(OR);** Y Cyng. Jina Gwyrfai **(JG);** Ynyr Ellis **(YE);** |
| **3.** | **CYFLWYNO A MABWYSIADU COFNODION CYFARFOD HYDREF 2024** |
| | Cynigwyd y cofnodion yn gywir gan WJ gydag SF yn eilio |
| **4.** | **DATGAN DIDDORDEB** |
| | Dim yn cael ei ddatgan |
| **5.** | **DIWEDDARIADAU ASEDAU** |
| | Popeth mewn cyflwr derbyniol |
| **6.** | **MATERION YN CODI** |
| | a) Drain Mynwent Llithfaen<br>Nid oedd diweddariad i'w gynnig, i'w drafod yn y cyfarfod nesaf.<br><br>b) Bin gwastraff ci diffygiol - cais i leoli ar dop Nant<br>Roedd y clerc wedi methu a chael cyswllt gyda Phennaeth yr adran i gael caniatâd i osod er gwaethaf e-bostio, ffonio ac ymdrechion Galw Gwynedd<br><br>c) OR - Tyllau ar dro Lôn Isaf am Bentre-uchaf o groes cyn cyrraedd Lôn Ffosydd<br>Wedi ei ychwanegu i'r rhaglen waith<br><br>d) SP – Cwynion pellach wedi eu derbyn am 13 car wedi parcio o amgylch un tŷ yn Awelfryn, amhosib i ddreifio i'r stad.<br>Wedi gofyn am ddiweddariad gan Adra ond heb dderbyn ymateb, hefyd wedi gyrru i 101 |

| | |
|---|---|
| | e) GJLJ - Car yn parhau i fod wedi parcio ar y palmant o flaen Vic– y clerc ofyn i'r heddlu gael gair.<br><br>f) OR - Problem diogelwch gyda chlawdd yn Lôn Elim, creu perygl i gerddwyr a modurwyr.<br>Wedi gofyn i'r Cyngor lythyru<br><br>g) Gordyfiant ar Bont Bryncelyn Isaf.<br>Y clerc wedi gofyn i'r Cyngor lythyru a'r perchennog - y gwaith bellach wedi ei gwblhau.<br><br>h) SP - Lon Gors Lwyd i Brŷn Ffynnon<br>I'w drafod yn y cyfarfod nesaf<br><br>i) SP – Gwter yn ganol lon dros ffordd ac Alpha, angen ei ail leoli lle fydd dwr yn gallu rhedeg iddo.<br>Y clerc wedi ail lythyru a Phriffyrdd Dwyfor a gofyn i'r mater gael ei orffen ar fyrder<br><br>j) OW – Pistyll yn parhau i fod angen chwyn laddwr<br>Y clerc wedi adrodd y gwyn i Gyngor Gwynedd |
| **7.** | **CEISIADAU CYNLLUNIO** |
| | **a) RHIF CAIS/APP REF: C24/0919/43/TR - GWYNUS UCHA, PISTYLL, PWLLHELI, LL53 6LY**<br>Creu llinell drydan uwchben newydd er mwyn cyflenwi trydan i adeilad amaethyddol presennol<br>**Dilyn a Darganfod**<br>Dim gwrthwynebiad<br><br>**b) RHIF CAIS/APP REF: C24/0795/43/LL - MÔR AWEL, PISTYLL, PWLLHELI, GWYNEDD, LL53 6LS**<br>Newid defnydd prif gartref (C3) i ddefnydd ail gartref (C5)<br>**Dilyn a Darganfod**<br>Penderfyniad ar bleidlais i wrthod ar sail polisïau'r Cyngor Sir |
| **8.** | **CAIS AM DWMPATHAU YN LLITHFAEN** |
| | Cais gan drigolion West End am dwmpathau tawelu traffig.<br>Cytunodd yr aelodau i drafod y mater eto ar ôl derbyn mwy o wybodaeth am ail sefydlu'r cynllun 30. |
| **9.** | **SAFLE WE'R CYNGOR** |
| | GJ wedi gyrru allan y gwaith i gwmnïau rhoi dyfynbris arno. |
| **10.** | **LLECYNNAU ANGEN EU HARDDU YN LLITHFAEN** |
| | Dim diweddariad hyd yn hyn, i'w drafod fis nesaf. |
| **11.** | **Y GANOLFAN, LLITHFAEN / PRYDLES Y GANOLFAN** |
| | Derbyniwyd gohebiaeth gan y Cyngor Sir yn gofyn i'r Cyngor gadarnhau:<br>• Mae'r brydles bellach wedi selio gan y Cyngor ac yn barod i gwblhau - os fyddech cystal â chadarnhau bod hyn yn dderbyniol. - Cytunodd yr aelodau<br>• Bydd y Cyngor yn anfonebu am y rhent mewn amser - fel arfer maen nhw yn anfon un anfoneb (£99) er mwyn arbed gorfod gwneud bob blwyddyn ( £1 y flwyddyn am 99 mlynedd). Cytunodd yr aelodau<br>• Mi oedd yna gytundeb i dalu cyfraniad at gostau cyfreithiol y Cyngor, cais am wybodaeth: Bydd y clerc yn pori trwy'r hen gofnodion gan mae cyn clerc oedd wedi paratoi'r gwaith rhwng 2015 ac 2018 |
| **12.** | **MATERION LLEOL** |
| | LF - Pont Bryn Celyn – gofyn am ddiweddariad parthed glanhau'r ochrau |

| | |
|---|---|
| | GJ – Cais i farbio gwrychoedd rhwng Pistyll a Wern |
| **13.** | **HYFFORDDIANT** |
| | Dim i'w drafod ar y noson |
| **14.** | **GOHEBIAETH A GWYBODAETH** |
| **15.** | a) Llythyr hysbysebu Rali Goffa James Trenholme 2024.<br>b) GWAHODDIAD - Cyfarfod cynghorau cymuned a thref Pen Llŷn i DRAFOD CYDWEITHIO<br>c) Arolwg Cymunedol – Etholiadau Gwynedd<br>d) Newyddlen mis Tachwedd Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd<br>e) Datganiad o daliadau - Cynghorau tref a chymuned<br>f) Sesiwn Galw Heibio BIPBC |
| **16.** | **CYLLID** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| + | **CYFRIF CYFREDOL MAWRTH 2024** | | **£ 17,184.69** |
| + | **CYFRIF CADW MAWRTH 2024** | | **£ 2,717.05** |
| - | **LLAI TALIADAU HEB YMDDANGOS YN Y BANC** | | **£ 3,936.75** |
| + | **GWARGED 2024/ 2025** | | **£ 4,331.20** |
| = | **CRONFA'R CYNGOR** | = | **£ 20,296.19** |

**I GYTUNO A DATGANIADAU'R BANC**

**CYFRIF CYFREDOL - 01 o Hydref I 31 o Hydref 2024**

| | | |
|---|---|---|
| Balans Agoriadol | | **£ 18,775.76** |
| Derbyniadau | + | £ 6,000.00 |
| Gwariant | - | £ 307.89 |
| Balans Cau | = | **£ 18,467.87** |

**CYFRIF CADW - 07 Hydref I 6ed o Dachwedd 2024**

| | | |
|---|---|---|
| Balans Agoriadol | | **£ 2,744.41** |
| Derbyniadau | + | £ - |
| Gwariant | - | £ - |
| Balans Cau | = | **£ 2,744.41** |
| | = | **£ 21,212.28** |

**LLAI TALIADAU HEB EU CYFLWYNO YN Y BANC**

| | | | |
|---|---|---|---|
| - | Audit Wales 2019/20 | **201327** | **210.00** |
| - | Cyngor Gwynedd | **201328** | **276.00** |
| | | = | **£ 486.00** |

**LLAI TALIADAU I'W CYMERADWYO**

| | | | |
|---|---|---|---|
| - | Cyflog Clerc | **201329** | **383.60** |
| - | Treuliau | **"** | **27.49** |
| - | G. Jones | **201330** | **20.00** |
| | | = | **£ 431.09** |

| | |
|---|---|
| | **SYDD YN CYTUNO GYDA CHRONFA'R CYNGOR** = **£ 20,296.19**<br>- **LLAI BALANS CRONFA DIFFIBLWR (LL)** - **-£ 15.70**<br>- **LLAI BALANS CRONFA DIFFIBLWR (P)** **£ 242.00**<br>= **CYFANSWM CYWIR Y CYFRIFON** = **£ 20,068.89**<br><br>**a)** **CYTUNDEB TÂL AR GYFER 2024-25**<br>Chwyddiant o 63c yr awr (pwynt 12) i gyflog y clerc o Fis Ebrill o £13.73 i £14.36<br>Ôl dal o Ebrill i Dachwedd = £108.00<br>Cytunodd yr aelodau rhoi bendith i'r ôl dal ar chwyddiant<br><br>b) SP – Cynigiodd SP i'r Cyngor archebu Coed Nadolig i Bistyll a Llithfaen – cytunodd yr aelodau |
| **17.** | **CYFARFOD NESAF Y CYNGOR** |
| | 10fed o Ragfyr, 2024 – Y Ganolfan, Llithfaen i gychwyn yn hwyrach am 7.30pm |